Y Gerdd Werdd – Gwyneth Glyn

Sgen ti botel? Sgen ti bapur?
Sgen ti ganiau? Sgen ti dun?
Sgen ti amser i ailfeddwl
cyn eu taflu nhw i'r bin?

Casgla'r rhain fel trugareddau,
adeilada bentwr mawr,
yna tro nhw'n drysor newydd
fel mae'r machlud yn troi'n wawr.

Bwyda di y blwch ailgylchu,
llanwa di y crochan hud.
Gwylia hen bapurau echdoe
yn troi'n gylchgrawn newydd, drud.

Tro dy hun yn degan digri,
tro focs sgwâr yn botel gron.
Tro hen eiriau rhwng dy ddwylo
i wneud cerddi newydd sbon.

Gwyneth Glyn, *Cerddi'n Cerdded* (Gomer, 2008)

Cadno Coch – Eurig Salisbury

Yn ysgafn,
Fel pe bai'r llawr yn llosgi
Ei draed,
Dacw'r cadno coch
yn loncian o lwyn i lwyn.

Mae'n cadw ei bwyll,
Yn codi ei ben
Ac oedi.

Clywodd rywun
Neu rywbeth
Lle na chlywais i
Ddim.

Y cadno coch
A'i draed yn ddu
Yn loncian ac yn loncian
Cyn i'r tir ei lyncu.

Eurig Salisbury, *Sgrwtsh* (Gomer, 2011)

Help – Casia Wiliam

Blantos Cymru, a welwch chi'r glaw?
Fy nagrau yw'r rhain, yn disgyn mewn braw.

Blantos Cymru, a glywch chi fy sgrech?
Mae'r salwch yn taenu i bob man fel brech.

Blantos Cymru, rwy'n peswch, yn tagu –
yr holl fwg a'r plastig, mae'n anodd anadlu.

Blantos Cymru, rwy'n sgrechian mewn panig –
rwy'n hiraethu am yr iâ a orchuddiai yr Arctig.

Blantos Cymru, a deimlwch chi'r gwres?
Mae'n llosgi fy nghroen, dod yn nes ac yn nes.

Blantos Cymru, a fedrwch chi addo
bod yn wahanol – eich bod chi am drio?

Blantos Cymru, a wnewch chi fy ngwarchod?
Mae amser o hyd i ddadwneud y difrod.

Blantos Cymru, os gweithiwch ynghyd,
fe rof i chi'r cwbl – fe rof i chi'r byd.

Sŵn – T. Llew Jones

Liw nos ni chlywir, medden nhw,
Ond hwtian oer y gwdi-hŵ:
Mae pawb a phopeth yn y cwm
Yn ddistaw bach yn cysgu'n drwm.

Ond celwydd noeth yw hynny i gyd,
Mae'r nos yn llawn o sŵn o hyd;
Mi glywais i, un noson oer,
Sŵn cŵn yn udo ar y lloer.

Mi glywais wedyn, ar fy ngair,
Sŵn llygod bach yn llofft y gwair –
Rhyw sŵn fel sŵn y gwynt trwy'r dail,
Rhyw gyffro bach a sibrwd bob yn ail.

A chlywais wedyn, ar ôl hyn,
Grawcian brogaod yn y llyn;
A chlywais unwaith, ar fy ngwir,
Gyfarth y llwynog o'r Graig Hir.

Pan ddring y lloer a'r sêr i'r nen,
A gwaith y dydd i gyd ar ben,
Pan gilia pawb i'r tŷ o'r clos,
Cawn gyfle i wrando ar leisiau'r nos.

Tudur Dylan Jones, *Trysorfa T. Llew* [T. Llew Jones] (Gomer, 2004)

Garddwyr Oll – Karen Owen

Er bod mis Tachwedd arall
yn cloi'i gymalau'n dynn,
fe ddaw y garddwr hirben
i balu tir y chwyn;
a phlannu yno ei obaith mud
y gwêl fis Mai yn flodau i gyd.

Oherwydd gŵyr y garddwr
nad oes gorffwyso i fod
am mai ymaflyd cyson
â'r pridd sy'n troi y rhod;
a gŵyr, 'rôl dadmer daear wleb,
gohirio'r gwanwyn ni all neb.

Karen Owen, *Yn Fy Lle (*Cyhoeddiadau Barddas, 2006)

Tân yn y Dŵr – Einir Jones

Yr oedd y pysgod
yn y dŵr
fel tân gwyllt.

Cyn i mi blygu ymlaen
i roi tân wrth eu cynffonna'
mi roedden nhw wedi mynd
yn rocedi orengoch,

gwibio
ymfflamychu
diflannu
yn nos y pwll.

A gadael rhywbeth ar eu holau
fel ogla'
noson gei-ffocs
o'r bore wedyn,

yr hiraeth od
am y peth
na fedrir ei ddal
na'i ddofi

na'i amgyffred
â llygaid
na dwylo

dim ond ei wylio
wrth iddo fflachio ei ogoniant
a diflannu.

Blodeugerdd o Farddoniaeth Gymraeg yr Ugeinfed Ganrif (Gomer/Barddas, 1987)